

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

Dyddiad Cyhoeddi: 28 Ebrill 2016

**STATWS: GWEITHREDU**

**CATEGORI: POLISI**

**Teitl:** Hyfforddiant Deintyddol Sylfaen a threfniadau ar gyfer pennu prosesau cyfwerthedd - Rôl Adran Ddeintyddiaeth, Deoniaeth Cymru

**Dyddiad Dod i Ben/Adolygu:** Awst 2018

**I'w weithredu gan:**

*Byrddau Iechyd Lleol  
Cyfarwyddwr Addysg Ddeintyddol Ôl-  
raddedig*

**I'w weithredu erbyn:**

*Mai 2016 (Gweler paragraff 2)*

**Anfonwyd gan:** Grant Duncan, Pennaeth Is-adran Polisi Gofal Iechyd  
Lisa Howells, Dirprwy Brif Swyddog Deintyddol Cymru

**Enw(au) Cyswllt yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru:**

Lisa Howells, Dirprwy Brif Swyddog Deintyddol  
[lisa.howells4@wales.gsi.gov.uk](mailto:lisa.howells4@wales.gsi.gov.uk) 029 2080 1482

**Dogfen(nau) amgaaedig:**

## **Ysgrifenyddion Byrddau**

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg  
Aneurin Bevan  
Betsi Cadwaladr  
Caerdydd a'r Fro  
Cwm Taf  
Hywel Dda  
Powys  
Iechyd Cyhoeddus Cymru  
Ymddiriedolaeth Felindre  
WAST  
Ysgrifennydd i'r Grŵp Ysgrifenyddion Byrddau

## **Prif Weithredwyr**

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg  
Aneurin Bevan  
Betsi Cadwaladr  
Caerdydd a'r Fro  
Cwm Taf  
Hywel Dda  
Powys  
Iechyd Cyhoeddus Cymru  
Ymddiriedolaeth Felindre  
WAST

## **Cadeiryddion**

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg  
Aneurin Bevan  
Betsi Cadwaladr  
Caerdydd a'r Fro  
Cwm Taf  
Hywel Dda  
Powys  
Iechyd Cyhoeddus Cymru  
Ymddiriedolaeth Felindre  
WAST

## **Llywodraeth Cymru**

Cyfarwyddwr Cyffredinol/Prif Weithredwr GIG Cymru  
Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru  
Tîm Gweithrediadau'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Tîm Cysylltiadau'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Cyfarwyddwyr perthnasol

## **Derbynwyr ychwanegol**

Cadeirydd Pwyllgor Deintyddol Cymru  
Ymgynghorwyr ym maes Iechyd Cyhoeddus Deintyddol (Iechyd Cyhoeddus Cymru)  
Cadeiryddion Pwyllgorau Deintyddol Lleol  
Cyfarwyddwr Addysg Ddeintyddol Ôl-raddedig: Deoniaeth Cymru  
Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru

## 1. Crynodeb

Mae'r Cylchlythyr hwn yn rhoi manylion polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu rhaglen Hyfforddiant Deintyddol Sylfaen effeithiol. Diben hyn yw sicrhau mynediad parhaus i weithlu gofal deintyddol sylfaenol cwbl hyfforddedig a chymwys yn y GIG ledled Cymru.

## 2. Gweithredu

Gofynnir i Gyfarwyddwr Addysg Ddeintyddol Ôl-raddedig Cymru sicrhau bod y trefniadau hyn yn cael eu sefydlu er mwyn rhoi'r newidiadau hyn ar waith.

Gofynnir i Brif Weithredwyr Byrddau Iechyd Lleol nodi'r trefniadau hyn a defnyddio'r broses a ddisgrifir ym mharagraff 5 ar gyfer deintyddion nad oes ganddynt brofiad cyfwerth â Hyfforddiant Deintyddol Sylfaenol.

## 3. Hyfforddiant Deintyddol Sylfaen yng Nghymru

### 3.1 Cyflwyniad

Mae Hyfforddiant Deintyddol Sylfaen (HDS) yng Nghymru yn rhaglen a ariennir, a weinyddir ac a lywodraethir yn ganolog er mwyn i ddeintyddion sydd newydd gymhwyso ymgymryd â hyfforddiant er mwyn cael rhif ar Restr Cyflawnwyr y GIG.

Mae'r cynllun HDS yn darparu hyfforddiant, fel arfer drwy gyflogaeth blwyddyn, amser llawn neu gyfnod cyfatebol o gyflogaeth ran-amser, pryd mae'r deintydd yn cael ei gyflogi gan Oruchwylydd Addysgol cymeradwy i ddarparu ystod eang o ofal deintyddol y GIG a mynychu'r dyddiau astudio gofynnol. Fel arfer, bydd y practis hyfforddi yn darparu gwasanaethau deintyddol sylfaenol o dan gontract Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol neu gytundeb Gwasanaethau Deintyddol Personol, ond mewn rhai achosion dan drefniadau eraill y GIG.

O fis Medi 2016 ymlaen, bydd newid yn y rheoliadau<sup>1</sup> yn mynnu bod pob Deintydd Sylfaen yn 'cwblhau'n foddhaol' ei raglen hyfforddiant gan ddefnyddio'r broses y cytunwyd arni ar lefel y DU a weithredir gan Ddeoniaeth Cymru. O'r herwydd, bydd HDS yn cael ei gynnal yn unol â:

- a. Rheoliadau'r GIG (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Cymru) 2006 (fel y'u diwygiwyd), Rheoliadau'r GIG (Cytundebau Gwasanaethau Deintyddol Personol) (Cymru) 2006 (fel y'u diwygiwyd) a Rheoliadau'r GIG (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) 2004 (fel y'u diwygiwyd);
- b. Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol;
- c. Canllawiau gan Lywodraeth Cymru; a
- d. Canllawiau gan Adran Ddeintyddiaeth, Deoniaeth Cymru.

---

<sup>1</sup> Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) (diwygio) 2016.

### 3.2 Cyd-destun a Nod Cyffredinol

Caiff HDS ei ddiffinio fel “*cyfnod o hyfforddiant ar ôl ennill cymhwyster cychwynnol sy'n adeiladu ar gyflawniadau'r cwricwlwm israddedig deintyddol*” fel y'i diffinnir yn [The First Five Years](#) (Cyngor Deintyddol Cyffredinol) sydd â'r nod o “*greu ymarferydd myfyriol, cymwys, gofalgar sy'n gallu datblygu ei yrfa mewn unrhyw gangen o'r maes deintyddiaeth er budd cleifion*” yng nghyd-destun pob un o bedair gwlad y DU. Nid ceisio hyfforddi 'perchennog practis' a wna'r HDS, na rhoi i Ddeintyddion Sylfaen y sgiliau sydd eu hangen i sefydlu a rhedeg practis deintyddol. Yn hytrach, mae'n paratoi unigolion ar gyfer ymarfer annibynnol fel cyswllt / cyflawnwr / gweithiwr yn y gwasanaethau deintyddol cyffredinol.

Ceir dwy ddogfen, [maes llafur](#) ac [Arweiniad Glas](#) a gyhoeddir gan COPDEND sy'n cynnwys yr holl fanylion perthnasol ar y materion hyn.

### 3.3 Disgwyliadau o ran Gweithgaredd Clinigol ac Addysgol

Bydd Adran Ddeintyddiaeth, Deoniaeth Cymru yn parhau i sefydlu gweithdrefnau priodol ar gyfer:

- penodi goruchwylwyr Addysgol;
- gweithredu cwricwlwm yr HDS (dan oruchwyliaeth pwyllgor lleol perthnasol a gan gyfeirio'n briodol at ddatblygiadau gyda'r HDS ar lefel ehangach y DU);
- asesu perfformiad Deintyddion Sylfaen drwy gydol y cyfnod hyfforddi; a
- Sicrhau Ansawdd HDS yng Nghymru.

Drwy gydol y rhaglen, ceir rhaglen strwythuredig, addysgol-ddilys, amser llawn o weithgaredd deintyddol priodol sy'n rhoi sylw i'r cymwyseddau blaenllaw yng nghwricwlwm yr Hyfforddiant Deintyddol Sylfaen ac sy'n bodloni anghenion dysgu unigol a welwyd.

Dylai Deintyddion Sylfaen hefyd gwblhau gweithgareddau addysgol penodol fel sy'n ofynnol gan y Ddeoniaeth (e.e. archwiliadau clinigol, cyflwyniadau achosion clinigol, a phrosiectau ymchwil ac archwilio).

Yn ystod y flwyddyn hyfforddi, mae'n rhaid i hyfforddeion fynychu 30 diwrnod astudio a drefnir gan y Ddeoniaeth gan ddarparu rhaglen addysgol sy'n rhoi sylw i'r prif feysydd cwricwlwm.

### 3.4 Rheoli ansawdd a chymeradwyo rhaglenni a swyddi

Cyfrifoldeb y Ddeoniaeth ydy hyn, gan weithio o fewn canllawiau cenedlaethol cyhoeddedig a gyda mewnbwn a chyngor allanol priodol.

## **4. Sicrhau Ansawdd Hyfforddiant Deintyddol Sylfaen**

### **4.1 Trefniadau goruchwyllo**

#### ***Cyfarwyddwr y Rhaglen Sylfaen/Cynghorydd Cynllun***

Dylai pob Rhaglen Sylfaen fod â Chyfarwyddwr Rhaglen Hyfforddiant wedi'i benodi sy'n gyfrifol am reoli'r rhaglen, comisiynu cyrsiau addysgol, cefnogi Goruchwylwyr Addysgol a threfnu cylchdroeon. Bydd y gwaith o recriwtio a dethol goruchwylwyr addysgol yn cael ei ddirprwyo i Adran Ddeintyddiaeth Deoniaeth Cymru, a bydd Deintyddion Sylfaen yn cael eu recriwtio drwy broses genedlaethol.

#### ***Goruchwylwyr Addysgol***

Dylai pob Deintydd Sylfaen gael un neu ragor o Oruchwylwyr Addysgol enwebedig sy'n gyfrifol am:

- oruchwyllo cynnydd addysgol yr hyfforddai;
- cytuno ar gynllun dysgu;
- cynnal tiwtorialau, asesiadau ac adolygu cynnydd (fel sy'n ofynnol gan amserlen y cynllun datblygu personol electronig) gan wneud asesiadau yn y gweithle;
- rhoi adborth rheolaidd ar gynnydd yr hyfforddai;
- hysbysu'r Ddeoniaeth o'r cynnydd; a
- darparu tystiolaeth ac argymhellion ar gyfer cwblhau'r hyfforddiant.

Dylai'r Goruchwylwr Addysgol enwebedig sicrhau bod yr hyfforddai yn cwblhau Portffolio'r HDS yn rheolaidd ac yn defnyddio'r offer addysgol a ddarperir i gefnogi'r hyfforddai. Gall yr hyfforddai hefyd gael nifer o oruchwylwyr clinigol drwy gydol cyfnod yr HDS. Byddant yn gyfrifol am yr oruchwyliaeth glinigol o ddydd i ddydd, am hwyluso a chynnal asesiadau, cefnogi'r hyfforddai, sicrhau llwyth gwaith priodol, cysylltu â Goruchwylwr Addysgol a Chyfarwyddwr y Rhaglen a darparu adroddiadau cynnydd.

#### ***Portffolios Addysgol a Chynlluniau Datblygu Personol***

Rhaid i bob Deintydd Sylfaen gwblhau portffolio datblygu ac e-ddysgu cymeradwy i ddarparu tystiolaeth o'r gweithgaredd addysgol a'r hyfforddiant a chyflwyno hwn i'r Ddeoniaeth i'w ddilysu fel rhan o'r broses gymeradwyo.

### **4.2 Cwblhau Hyfforddiant Deintyddol Sylfaen**

Mae Deoniaid a Chyfarwyddwyr addysg Ddeintyddol Ôl-raddedig yn gyfrifol am ardystio cwblhau'r HDS o fewn y fframweithiau rheoleiddio presennol. O fis Medi 2016 ymlaen bydd angen i bob Deintydd Sylfaen ddangos ei fod wedi cwblhau'r rhaglen yn foddhaol er mwyn cael Tystysgrif Gwblhau. Bydd disgwyl i bob Deintydd Sylfaen gwblhau rhan COPDEND o e-arolwg y lleoliad fel rhan o'u portffolio.

## **5. Trefniadau i Bennu Cyfwerthedd<sup>2</sup> - Rôl yr Adran Addysg Ddeintyddol Ôl-raddedig**

Er 1 Ebrill 2006 ymlaen, o dan Reoliadau'r GIG (Rhestr Cyflawnwyr) (Cymru) 2004 (fel y'u diwygiwyd), os am ddarparu gwasanaethau deintyddol sylfaenol dan gontract GDS, cytundeb PDS neu os yw'r Bwrdd lechyd ei hun am ddarparu'r gwasanaethau hyn, rhaid i'r cyflawnwr deintyddol gael ei gynnwys ar Restr Cyflawnwyr y Bwrdd lechyd.

Er mis Ebrill 2006 mae Adran Ddeintyddiaeth Deoniaeth Cymru, (ar ran Gweinidogion Cymru):

- yn pennu cyfwerthedd;
- yn darparu trefn apeliadau briodol;
- yn cyflwyno rhif hyfforddiant ac yn cynnal cronfa ddata o bwy gafodd rif; ac
- yn cysylltu â Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ynglŷn â materion yn ymwneud â'r Rhestr Cyflawnwyr.

Enw cyswllt yn yr Adran Addysg Ddeintyddol Ôl-raddedig –  
Gabby Lloyd [lloydg4@cardiff.ac.uk](mailto:lloydg4@cardiff.ac.uk)

Gellid bod rhai deintyddion nad ydynt dan rwymedigaeth statudol i fod wedi dilyn HDS, ond mae'n bosibl y bydd ar y Byrddau lechyd eisiau holi'r Cyfarwyddwr Addysg Ddeintyddol Ôl-raddedig ynglŷn ag a ddylai'r deintyddion gael eu gwahodd i gytuno ar raglen o ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP) i roi sylw i unrhyw fylchau yn eu sgiliau a'u profiad.

Pan fydd Bwrdd lechyd yn derbyn cais am fynediad i'w restr o gyflawnwyr (h.y. ceisiadau maent yn eu cefnogi) gan ddeintyddion nad oes ganddynt brofiad cyfatebol ac nid ydynt fel arall wedi'u heithrio o'r gofyn i ddilyn HDS, bydd angen iddynt gymryd camau fel y nodir uchod a chysylltu â'r Adran Addysg Ddeintyddol Ôl-raddedig. Mae Rheoliadau'r GIG (Rhestr Cyflawnwyr) (Cymru) 2004 (fel y'i diwygiwyd) yn darparu hyblygrwydd yn nhrefniant cyrsiau HDS gan ganiatáu i'r Cyfarwyddwr Addysg Ddeintyddol Ôl-raddedig bennu hyfforddiant sy'n para am lai na blwyddyn neu hyfforddiant a/neu brofiad priodol arall. Ar ôl cwblhau'r hyfforddiant yn llwyddiannus, bydd y deintydd yn derbyn tystysgrif gwblhau, a fydd yn cael ei chyflwyno i Bwyllgor Cyfwerthedd Cymru er mwyn i rif cyfwerthedd gael ei roi.

## **6. Pwyllgor Hyfforddiant Deintyddol Sylfaen (DFTC) yng Nghymru**

Mae'r Pwyllgor anstatudol hwn ar hyn o bryd yn cynghori Prif Swyddog Deintyddol Cymru ynglŷn â phob mater sy'n ymwneud â HDS. Dylai ei rôl gynnwys craffu ar yr agweddau ar y rhaglen HDS yng Nghymru.

---

<sup>2</sup> Arferid ei alw'n Gyfwerthedd Hyfforddiant Galwedigaethol mewn rheoliadau.

## 7. Cyllid, Dyrannu a Pheirianweithiau Talu

Mae'r HDS yng Nghymru yn rhaglen a ariennir, a weinyddir ac a lywodraethir yn ganolog. Mae'r cytundeb presennol yn darparu ar gyfer hyd at uchafswm o 74 o leoedd hyfforddi **neu'r** hyn sy'n cyfateb i nifer y graddedigion o Ysgol Ddeintyddol Prifysgol Caerdydd bob blwyddyn y mae gofyn iddynt ddilyn HDS i gael rhif ar y Rhestr Cyflawnwyr (cytunir ar gyllid yn unol â'r nifer isaf o leoedd). Gallwch lwytho i lawr ddisgrifiad manwl o gyflogau, taliadau a lwfansau oddi ar:

<http://gov.wales/legislation/subordinate/nonsi/nhswales/2009/3118894/?skip=1&lang=cy>

(Caiff ei ddiwygio bob blwyddyn i adlewyrchu newidiadau yng nghyfraddau'r lwfansau)

[http://www.wales.nhs.uk/documents/MDWW1\\_2015.pdf](http://www.wales.nhs.uk/documents/MDWW1_2015.pdf)

(Caiff ei ddiwygio bob blwyddyn i adlewyrchu'r newidiadau yn y cyfraddau cyflog)